

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y cyfarfod ar y 18fed o Fawrth 2019 am 8.15yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Eirian Howells(Cadeirydd), Andrew Jones, Linda Davies, Alyson Harries, John Phillips, Arwyn Jones, Ambrose Lewis & Ann Sillars.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Dyfed Davies, Derrick Harries & Cyngorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Agorodd Eirian Howells y cyfarfod, gan ddiolch i'r Cynghorwyr a'r Clerc am fod yn bresennol.
3. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod y 14ain o Ionawr 2019, cytunwyd a llofnodwyd fel cofnod cywir.
4. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Pendre – Mi'r oedd y clerc wedi derbyn cadarnhad wrth Cyngor Sir Caerfyrddin nad oedd yr ardal tu allan i'r anedd ble'r oedd y mur wedi ei godi yn eiddo i'r Cyngor Sir.
 - Ronnany – roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon cynlluniau i'r clerc yn dangos nad oedd yr ardal rhwng yr anedd ac yr eglwys o dan eu perchnogaeth nhw. Cytunwyd i wirio perchnogaeth y tir gyda'r Gofrestr Tir.
 - Cyfrif wrth gefn – Mi'r oedd y clerc wedi gwirio gyda'r cyfrifydd a oedd unrhyw reswm i gadw'r cyfrif wrth gefn ar agor. Gan nad oedd, mi'r oedd balans y cyfrif wedi ei drosglwyddo i'r cyfrif cyfredol.
 - Diffibriliwr – mi'r oedd y clerc wedi ffonio cwmni CARIAD i wirio pwy oedd yn gyfrifol am ofalaeth dydd i ddydd y diffibriliwr e.e.gwirio a oedd yn gweithio. Cadarnhaodd y cwmni mae cyfrifoldeb y Gymuned oedd hyn. Roedd unrhyw broblem gyda'r peiriant i'w adrodd i CARIAD ac y byddent hwy yn dod allan i'w atgyweirio. Mi'r oedd buddiannau ar gael ar gyfer diffibriliwyr I Alma, Pandy a Gelliwen drwy Sefydliad Prydeinig y Galon, ond buasai'n ofynnol i'r cymunedau eu hunain ceisio am yr arian.

Gohebiaeth

- 5.1) Mi'r oedd anfoneb wedi ei dderbyn wrth Cyngor Cymuned Trelech am rhentu'r ystafell ar gyfer cyfarodydd. Cytunwyd i dalu'r £96 dyledus.
- 5.2) Mi'r oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi danfon anfoneb o £225.75 am yr awdit. Cytunwyd i'w dalu.
- 5.3) Mi'r oedd anfoneb o £1273.68 wedi ei dderbyn wrth Cyngor Sir Caerfyrddin am gostau cynnal a chadw a chostau egni ar gyfer goleuo. Cytunwyd i'w dalu.
- 5.4) Roedd Un Llais Cymru wedi danfon anfoneb aelodaeth o £101. Cytunwyd i'w adnewyddu.
- 5.5) Cyflwynodd y clerc anfonebau o £39.88 am deunydd swyddfa a stampiau. Cytunwyd i'w dalu.
- 5.6) Roedd Thomas Fattorini wedi danfon costau ar gyfer diweddaru Cadwyn y Cadeirydd. Cytunwyd i wneud hyn gan ôl-ddyddio i'r dyddiad gofynnol.
- 5.7) Roedd ebost 'Operation London Bridge' wedi cael eu ddanfod ymlaen i'r Cynghorwyr.

5.8) Mi'r oedd y Cyngorydd Sir Jean Lewis wedi danfon copi o'r ebost roedd wedi ei ddanfon i'r adran Priffyrdd (7/2/19) ynghlyn a'g ymsuddiant ac yr angen am ragor o arwyddion ger Trewrda.

5.9) Mi'r oedd y Cyngorydd Sir Jean Lewis wedi hefyd danfon ymlaen ebost ynghlyn â cau'r ffordd yn arwain at pont Ffynnondefelog (5/2/19) oherwydd gwaith cynnal a chadw. Roedd yr ebost wedi cael ei ddanfon ymlaen i'r Cyngorwyr.

5.10) Mi'r oedd y clerc wedi bod yn trafod gyda'r cyfrifydd y gwaith cyflogaeth. Mi'r oedd y cyfrifydd wedi argymhell fod y clerc yn ymwneud a'r gwaith ac ei fod ef yn archwilio y gwaith yn flynyddol. Cytunwyd i weithredu hyn.

6. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £4740.93

Cyfrif Busnes wrth Gefn £0

7. Unrhyw Fusnes Arall

- Roedd yn ofynnol i'r CYngorwyr ddiweddar yr Aseiad Risg. Trafodwyd yr aseiad ar gyfer 2019/20 ac fe'l gytunwyd. Dogfen wedi ei atodi.
- Cytunwyd Cyllideb 2019/20 a oedd yn cynnwys lwfans posib costau'r Cyngorwyr. Dofen wedi ei atodi.
- Roedd Alyson Harries wedi bod mewn trafodaethau i drefnu hyfforddiant Diffibriliwr yn y Gymuned. Roedd hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer y 27ain o Fawrth 2019 am 7.30yh yn Canolfan Gynunedol Trelech. Roedd y clerc i hyrwyddo'r digwyddiad.
- Codwyd pryderon ynglyn â chyflymder cerbydau drwy pentref Trelech yn enwedig yn ardal y Ganolfan/Parc/Ysgol Gynradd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynghlyn a'r posibilrwydd o osod mesurau tawelu traffig.
- Codwyd pryder hefyd ynghlyn a'r difrod a achoswyd i'r arosfan bws ar sgwar Trelech. Nid oedd y difrod wedi cael ei atgyweirio. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r cwmni bysiau i weld beth oedd y diweddaraf.
- Roedd y llwybr i Clunfelyn wedi dirywio ac fe cytunwyd i gysylltu gyda Owen Jones a Elgan Thompson i glirio/adfer y llwybr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a terfynwyd y cyfarfod am 9.35yh.